YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru
The Governing Body of The Church in Wales

Pwyllgor Sefydlog

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn y Future Inn, Caerdydd ddydd Mercher a dydd Iau 17 a 18 Mai 2024.

Yn bresennol:

Aelodau *Ex-officio*

Y Parchedicaf Archesgob Cymru
Y Gwir Barchedig Esgob Llanelwy
Y Gwir Barchedig Esgob Mynwy
Y Gwir Barchedig Esgob Abertawe ac Aberhonddu
Y Gwir Barchedig Esgob Tyddewi
Yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Enwebwyd gan Bwyllgorau Sefydlog yr Esgobaethau

Y Parchedig Dr Trish Owens
Mr Paul Whittaker CBE
Y Parchedig Richard Wood
Yr Hybarch Paul Mackness
Mr Tim Llewelyn (Cadeirydd)
Yr Hybarch Rod Green
Dr Heather Payne (Is-gadeirydd)
Yr Hybarch Stella Bailey
Y Canon Caroline Woollard
Y Parchedig Ganon Justin Davies
Mr Paul Murray

Enwebwyd gan y Corff Llywodraethol

Y Gwir Barchedig David Morris

Yn bresennol:

Ysgrifennydd y Dalaith, Swyddog y Corff Llywodraethol, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Llywodraethu ar gyfer y cyfarfod cyfan. Roedd y Rheolwr Llywodraethu a'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth yn bresennol yr ail ddiwrnod.

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Nigel Williams, Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr, Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser CB a Mr Keith Wadcock

Addoliad

Offrymwyd gweddi agoriadol y Pwyllgor Sefydlog gan y Parchedig Ganon Dr Trish Owens. Cynhaliwyd sawl addoliad yn ystod y deuddydd a gweinyddwyd y Cymun Bendigaid i gloi'r achlysur.

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod, yn arbennig y Gwir Barchedig David Morris, Esgob Enlli, i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sefydlog.

Nododd y Cadeirydd fod gan y cyfarfod hwn ffocws strategol ac y byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn cymryd rhan mewn cyfres o drafodaethau a myfyrdodau, yn hytrach na thrafod busnes gweithredol.

Blaenoriaethau'r Eglwys yng Nghymru

24/13

Cyflwynodd yr Archesgob bapur yn nodi blaenoriaethau drafft presennol yr Eglwys yng Nghymru, a drafodwyd gan y Pwyllgor Sefydlog mewn grwpiau, gan fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

Blaenoriaethau'r Eglwys yng Nghymru

1. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach, ai'r rhain yw'r blaenoriaethau cywir o hyd ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru?

2. Sut mae symud o'r cam o fabwysiadu i sefydlu'r blaenoriaethau? Pa gamau sydd eu hangen a chan bwy?

3. Sut ydym ni'n cyfleu'r blaenoriaethau yn effeithiol a sut ydym ni'n gwybod a yw hyn yn cael ei wneud yn effeithiol?

4. Beth rydym ni'n gobeithio ei gyflawni erbyn i'r Pwyllgor Sefydlog gyfarfod nesaf mewn cyfarfod strategol ar 26 Medi?

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y blaenoriaethau drafft gan awgrymu rhai newidiadau, y gellir eu crynhoir fel a ganlyn:

- Ail-fframio testun Atodiad 1 (datganiad blaenoriaethau drafft dyddiedig 12 Medi 2023) drwy ymgorffori themâu'r pedwar pwynt bwled yn yr adran camau ymarferol;
- Addasu'r drefn lle nodwyd y pum pwynt 'R' yn Saesneg (*Revitalisation, Relationships, Rationalisation, Receptiveness and Reflection*) - Adfywio, Perthynas, Rhesymoli, Derbynioldeb a Myfyrio
- Dylid addasu'r pump R fel y gellir eu defnyddio ar unwaith gan Gyngor Ardal Gweinidogaeth, yn hytrach na'u hysgrifennu o safbwynt taleithiol;
- Dylai pob pwynt gynnwys cam cyntaf sy'n gysylltiedig â chynllun gweithredu cenhadol.

Awgrymodd y Pwyllgor Sefydlog hefyd fod angen cyfleu'r blaenoriaethau ledled y Corff Llywodraethol, y Fainc, Cynadleddau'r Esgobaethau, cynulliadau clerigion a Chynghorau Ardal Gweinidogaeth.

Awgrymodd y Pwyllgor Sefydlog y gallai'r Archesgob lunio drafft pellach i'w drafod gan y Fainc ym mis Mehefin, i'w adrodd i'r Pwyllgor Sefydlog ym mis Gorffennaf a'i ymgorffori yn Anerchiad y Llywydd yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Medi.

Ffrydiau Gwaith y Pwyllgor Sefydlog

24/14

Arweiniodd Dr Heather Payne sesiwn lle bu'r Pwyllgor Sefydlog yn trafod eu gwahanol ffrydiau gwaith ar hyn o bryd. Defnyddiwyd siart rheoli prosiect gyda'r penawdau - cyfrifoldeb, nodau allweddol, adrodd a chymeradwyo, er mwyn helpu i gynllunio gwaith, ac fe'u trafodwyd mewn grwpiau gan y Pwyllgor Sefydlog:

Cytunwyd y byddai'r siart rheoli yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd ar y gwahanol ffrydiau gwaith, gyda fersiynau wedi'u diweddaru o'r siart yn cael eu dangos yng nghyfarfodydd y dyfodol er gwybodaeth i'r Pwyllgor Sefydlog

Adolygiad o Gyfarfodydd y Corff Llywodraethol

24/15

Nododd y Pwyllgor Sefydlog grynodeb o'r adborth a gafwyd o gyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024, a chrynodeb o'r trafodaethau grŵp yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2023, pan fu'r Corff Llywodraethol ei hun yn adolygu sut yr oedd yn gweithio.

Defnyddiodd y Pwyllgor Sefydlog y cwestiynau canlynol i lywio ei drafodaethau.

1. Mae'r adborth o gyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024 yn dangos gwerthfawrogiad mawr o'r cynulliad a gwerthfawrogiad llawer is o gynnwys y cyfarfod. A yw aelodau'r Pwyllgor Sefydlog yn cytuno â'r crynodeb hwn ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd?

2. Mae adran 18 o'r Rheoliadau i Bennod II y Cyfansoddiad yn nodi:

‘Bydd o leiaf un cyfarfod cyffredin o’r Corff Llywodraethol ymhob blwyddyn ar yr amser ac yn y lle a benodir o bryd i’w gilydd i’r diben hwnnw gan y Corff Llywodraethol’.

Ers blynyddoedd lawer, mae'r Corff Llywodraethol wedi cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ond mae hanes yn dangos nad yw bob amser wedi gwneud hynny. A oes lle i batrwm gwahanol efallai gydag un cyfarfod hirach yn y cnawd ac un neu ddau gyfarfod ar-lein bob blwyddyn? Ai'r trefniadau presennol yw’r gorau?

3. Un o'r sylwadau a ddaeth i law oedd bod agenda'r cyfarfod ym mis Ebrill 2024 yn 'ddiflas'. Beth ddylai'r Pwyllgor Sefydlog ei ddweud wrth ymateb?

4. Pa faterion - naill ai o fewn yr Eglwys neu'r byd - y gellid gofyn i'r Corff Llywodraethol eu harchwilio?

5. Rhaid i'r Corff Llywodraethol fod yn: lle i **drafod**; lle i **benderfynu**; a lle i **ledaenu**. A oes mesur delfrydol ar gyfer y tri wrth gynllunio agenda?

Trafododd y Pwyllgor Sefydlog sut mae'r Corff Llywodraethol yn gweithio. Yn dilyn trafodaeth nodwyd y canlynol:

- Roedd cefnogaeth i symud rhywfaint o'r busnes mwy cyffredinol i fod ar-lein megis sefydlu aelodau newydd, sydd wedi ei gynnal ar-lein ers y pandemig;
- Dylid ceisio lleihau nifer y cyflwyniadau;
- Dylid cynnwys mwy o drafodaethau grŵp;
- Dylid cadeirio sesiynau trwy 'ddull consensws' fel yng Nghyngor Eglwysi'r Byd;
- Dylid ystyried gofyn am fwy o amser rhwng dyddiad cau cyflwyno cwestiynau a chynigion aelodau preifat a'r cyfarfod ei hun, er mwyn helpu'r Fainc a'r Pwyllgor Sefydlog i baratoi ymatebion mwy cyflawn.

Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i gyfeirio’r ymatebion ymlaen i'r Is-bwyllgor Penodiadau a Busnes, er mwyn ystyried yn benodol:

- A ddylid a sut y gellid newid yr amser rhwng y dyddiad cau ar gyfer cynigion aelodau preifat a chwestiynau Hawl i Holi a chyfarfod y Corff Llywodraethol;
- Isafswm yr aelodau a gaiff ofyn yn ôl eu hawl am i gynnig aelodau preifat gael ei drafod;
- A oes modd cyflawni unrhyw agwedd ar y gwaith cyffredinol ymlaen llaw mewn cyngyfarfod cyn i’r prif gyfarfod yn y cnawd ddechrau.

Yn well gyda'n gilydd

24/16

Cyflwynodd yr Archesgob destun 'yn well gyda'n gilydd' a thrafododd y Pwyllgor Sefydlog y cwestiynau canlynol mewn grwpiau.

1. Mae cylch gorchwyl y gweithgor fydd yn archwilio uno Corff y Cynrychiolwyr a'r Pwyllgor Sefydlog wedi'i baratoi. A yw aelodau'r Pwyllgor Sefydlog yn ei gefnogi? A yw aelodaeth arfaethedig y gweithgor yn gywir?

2. Weithiau dywedir bod yr esgobaethau a'r dalaith yn gyd-ddibynnol. Beth ddylai hyn ei olygu yn ymarferol?

3. Sut ydym ni'n penderfynu pa weithgareddau sy'n well gyda'n gilydd?

4. Yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill, fe wnaeth sawl siaradwr o'r ddarllenfa gamenwi'r Eglwys yng Nghymru yn Eglwys Cymru. A ydym ni'n parhau i ffafrio'r enw, yr Eglwys *yng* Nghymru?

O ran y gweithgor i archwilio uno'r Pwyllgor Sefydlog a Chorff y Cynrychiolwyr, trafododd y Pwyllgor Sefydlog ei gylch gorchwyl drafft, er mwyn sicrhau aelodaeth gytbwys ac amrywiol, proses syml a niwtral, gan roi ystyriaeth i benodi aelod allanol o'r grŵp.

O ran esgobaethau a'r dalaith, nododd y Pwyllgor Sefydlog:

- I bwy mae'r esgobaethau yn atebol?;
- Rôl cynadleddau esgobaethol;
- Roedd atebolrwydd yn bresennol ond heb fawr o reolaeth;
- Er mwyn dirnad ardaloedd lle mae'n well gyda'n gilydd, teimlwyd y gellid cynnal trafodaeth gychwynnol ym Mainc yr Esgobion.

Doedd dim penderfyniad yn y Pwyllgor Sefydlog i newid enw'r Eglwys yng Nghymru.

Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i fynd ati i adnewyddu'r cylch gorchwyl drafft gan ystyried y sylwadau hyn a chyflwyno copi yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Ysgrifennu ein hanes ymlaen llaw

24/17

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth i siarad am yr eitem hon.
Nododd Dr Davies dri mater cyfredol:

Caffael Ynni Gwyrdd

Adroddwyd bod bwriad i ofyn am ddata ar holl adeiladau'r eglwys ac eithrio persondai. Y rhesymeg oedd trosglwyddo holl adeiladau'r eglwys i dariff gwyrdd er mwyn sicrhau cynilion sylweddol. Byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethol i'w gymeradwyo ar ôl i'r cynnig gael ei baratoi'n llawn.

Croesawodd y Pwyllgor Sefydlog y fenter hon, a nododd yr angen i sicrhau bod cynigion o'r fath yn gweithio o blaid cynulleidfaoedd lleol, yn hytrach na bod yn

orfodaeth gan y dalaith. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol sicrhau bod pobl leol yn teimlo'n rhan o'r fenter.

Addysg

Er bod yna 144 o ysgolion yr eglwys yng Nghymru, gyda 5 ohonynt yn rhai uwchradd, nodwyd bod y niferoedd yn sefydlog ac nad oedd twf i'w nodi.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod strategaeth i warchod yr Eglwys rhag dirywiad ar y gweill a oedd yn edrych ar ardaloedd lle'r oedd twf demograffig yn digwydd ac yn nodi mannau lle'r oedd lle i dyfu o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai ymchwil yn cael ei gomisiynu i nodi ardaloedd lle'r oedd y boblogaeth yn tyfu; roedd y Gymdeithas Genedlaethol wedi dweud y byddai'n helpu i ariannu'r ymchwil.

Eglwysi segur

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod cynigion yn cael eu paratoi i fynd i'r afael yn strategol â materion sy'n ymwneud ag adeiladau eglwysig segur ac i wella canlyniadau ar gyfer yr adeiladau hyn.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod yna rai eglwysi wedi'u cau mewn ardaloedd tlawd, a bod angen gwneud cynlluniau ar gyfer gofal parhaol mynwentydd eglwysi sydd wedi cau.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y tri chynnig hyn.

Ymrwymodd aelodau'r Pwyllgor Sefydlog i ysgrifennu llythyr atyn nhw eu hunain yn y dyfodol yn nodi beth oedd wedi'i wneud i adfywio'r eglwys, ac i ddangos sut y gallai'r Eglwys edrych ymhen 5 mlynedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

24/18

Roedd disgwyl i'r Pwyllgor Sefydlog gyfarfod ar-lein ar gyfer cyfarfod busnes ddydd Mawrth 9 Gorffennaf 2024 am 09.00.

Dathlu'r Cymun Bendigaid

I gloi, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan Esgob Mynwy a chafwyd pregeth gan yr Archesgob.

J.R. Mehefin 2024
Cofnodion y Pwyllgor Sefydlog Mai 2024